# Polisi'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data Cyffredinol (GDPR)

## Datganiad a diben

Un o'n gwerthoedd fel sefydliad yw ein bod ni'n gofalu am ein gilydd a'r bobl rydyn ni'n gweithio gyda nhw. Dyma pam rydyn ni am gynnal amgylchedd gwaith diogel i bob un ohonom fel staff a'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan ein gwaith.

Pwrpas y polisi hwn yw amlinellu sut mae CNC a'i weithwyr yn cynnal cydymffurfiad cyfreithiol diogelwch data personol yn unol â deddfwriaeth y DU.

## Cydymffurfio

Mae'n ofynnol i'r polisi hwn gynnal cydymffurfiad â Deddf Diogelu Data 2018 a'r GDPR.

Gall Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth archwilio ac arolygu'r sefydliad yn dilyn mynediad diawdurdod at ddata, ac mae ganddi'r gallu i roi cosbau o hyd at €20 miliwn, yn unol â difrifoldeb y mynediad diawdurdod.

## Cwmpas

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl staff CNC a chontractwyr, gweithwyr asiantaeth / dros dro a gwirfoddolwyr sy'n gwneud gwaith ar ran CNC. Mae'n ymwneud â'r holl ddata personol sy'n cael ei brosesu, ei gadw a'i storio gan CNC ar unrhyw adeg mewn unrhyw fformat, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

- Data papur a gafodd ei storio â llaw
- Cyfrifon e-bost
- Data a gedwir ar gymwysiadau cyfrifiadurol ac mewn cronfeydd data
- Data o deledu cylch cyfyng a systemau cofnodi clywedol neu weledol eraill, gan gynnwys tapiau
- Data a gedwir mewn cofnodion storfeydd archifau
- Data a gedwir ar gryno ddisg, cof bach, ac ati

## Egwyddorion allweddol

Mae'r GDPR yn nodi saith egwyddor allweddol sydd wrth wraidd y drefn diogelu data. Mae'r rhain fel a ganlyn:

- Cyfreithlondeb, tegwch a thryloywder prosesu
- Cyfyngiadau ar ddibenion
- Lleihau data

- Cywirdeb
- Cyfyngiadau ar storio
- Uniondeb a chyfrinachedd (diogelwch)
- Atebolrwydd

# Rolau a chyfrifoldebau

**Y Swyddog Diogelu Data** – Mae'r rôl hon wedi'i hymgorffori yn rôl y Cynghorydd Arbenigol Arweiniol, Rheoli a Diogelwch Gwybodaeth. Mae'r Swyddog Diogelu Data yn gyfrifol am weithredu a chynnal y polisi hwn. Mae'n hysbysu ac yn cynghori CNC ar ei rwymedigaethau diogelu data ac yn monitro cydymffurfiad y sefydliad yn erbyn y rhwymedigaethau hyn.

**Yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth** – Yr unigolyn sy'n atebol am agwedd y sefydliad at risg gwybodaeth, gan gynnwys diogelwch, ansawdd ac argaeledd. Rôl cyfarwyddwr o fewn y sefydliad yw hon, a dyma'r pwynt cyswllt ar gyfer adrodd a sicrhau Perchnogion Asedau Gwybodaeth.

**Perchnogion Asedau Gwybodaeth** – Yn atebol am y data a'r wybodaeth sy'n dod o dan eu maes gwaith. Eu rôl yw sicrhau diogelwch, ansawdd, argaeledd a defnydd yr asedau data a gwybodaeth y maent yn atebol amdanynt. Nhw yw'r unigolion sydd ar y lefel benderfynu uchaf ar gyfer gwybodaeth sy'n ymwneud â'u maes gwaith a rhaid iddynt sicrhau bod adnoddau digonol ar gael i reoli data a gwybodaeth yn briodol. Rhaid i bob set ddata ddod o dan un ased gwybodaeth sydd â Pherchennog Asedau Gwybodaeth atebol. Bydd Perchnogion Asedau Gwybodaeth yn rhoi sicrwydd i'r Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth.

**Gwarcheidwad Data** – Yr unigolyn atebol am ased data (set ddata). Bydd rheoli data yn rhan allweddol o rôl yr unigolyn hwn. Ef/hi fydd y prif ddefnyddiwr neu'r prif bwynt cyswllt ar gyfer y set ddata – dyma un aelod o staff fel arfer, er y bydd mwy nag un yn bosibl pan fydd mwy nag un unigolyn â lefel gyfartal o gyfrifoldeb am set ddata. Y Ceidwad Data fydd prif bwynt cyswllt y Perchennog Asedau Gwybodaeth a bydd yn rhoi sicrwydd i'r Perchennog Asedau Gwybodaeth bod y data'n cael ei reoli'n briodol. Rhaid iddo roi gwybod yn brydlon am unrhyw faterion neu fynediad diawdurdod at ddata posibl. Rhaid i bob set ddata fod ag un neu fwy o Warcheidwaid Data.

**Defnyddiwr/golygydd data** – Unrhyw aelod o staff sy'n gweithio gyda data fel rhan o'i rôl. Fel rheol, bydd yn rhywun sy'n defnyddio data fel rhan o'i waith, yn hytrach na gweithio gyda data fel canolbwynt allweddol ei rôl. Gall hyn fod yn rhywun sy'n gweithio gyda data ar unrhyw bwynt yn ystod cylchred oes y data, e.e. cyrchu, diweddaru, gwylio, adrodd ac ati.

**Holl staff a chontractwyr CNC** – Mae gan bawb gyfrifoldeb i gydymffurfio â'r amlinelliad o bolisïau a gweithdrefnau ar gyfer diogelu data personol, am hysbysu'r Swyddog Diogelu Data o unrhyw amheuaeth o fynediad diawdurdod at ddata cyn gynted â phosibl, ac am dilyn y mesurau cywir os bydd angen defnyddio, storio neu brosesu data newydd mewn unrhyw ffordd.

# Gwybodaeth berthnasol arall

Beth arall ddylen ni ei wybod mewn perthynas â'r polisi hwn – unrhyw fanylion ategol sy'n angenrheidiol?

A oes gweithdrefnau (mewnosodwch y ddolen) y mae angen eu dilyn?

# Ffynonellau eraill o wybodaeth

I gael arweiniad pellach ar Ddeddf Diogelu Data 2018 a’r GDPR, cyfeiriwch at wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth: [https://ico.org.uk/](https://ico.org.uk/)

# Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Rydym wedi ymrwymo i ddiwylliant o gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Ein nod yw sicrhau nad oes unrhyw un yn derbyn triniaeth lai ffafriol ar sail ei oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil, beichiogrwydd, hil, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, neu grefydd, cred neu ddim cred.

Nid oes Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i lunio ar gyfer y polisi hwn.

# Cysylltu

Mae'r polisi hwn a'r weithdrefn gysylltiedig yn eiddo i – Cynghorydd Arbenigol Arweiniol, Rheoli a Diogelwch Gwybodaeth.

# Cymeradwyaeth

Cymeradwywyd gan: Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth

# Fersiwn

Fersiwn 2 – Cyhoeddwyd Chwefror 2021

Cyhoeddwyd gyntaf – Mai 2018

Cyfnod adolygu – bob dwy flynedd. Gwneir diwygiadau'n gynharach lle bydd newid perthnasol i ddeddfwriaeth neu i anghenion busnes, yn sgil cynnal trafodaethau â'r undebau llafur cynrychiadol.